

## Yr Adfent

### Darlleniad: Eseia 52

---

---

Ein Tad, dyma ni unwaith eto ar drothwy'r Nadolig, ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at holl lawenydd a dathlu'r Wyl. Fe fydd y rhan fwyaf ohonom yn hapusach ac yn anwylach oherwydd ei bod yn wyl o ewyllys da, a phawb yn gwneud rhywfaint o ymdrech i adlewyrchu hynny wrth gyfnewid cardiau ac anrhegion. Mae'r paratoadau mewn llaw ers misoedd yn rhai o'r siopau, a phobl yn sôn eu bod wedi hen ddechrau siopa am yr anrhegion a'r holl bethau eraill sydd yn rhan bellach o Nadolig ein hoes ni. Dros yr wythnosau nesaf fe fydd y prysurdeb a'r paratoi'n cynyddu i ryw uchafbwynt o ruthro, ac yn gadael llawer ohonom yn rhy flinedig i feddwl am wir ystyr y Nadolig, ac i fwynhau'r fendith sydd gennynt ar ein cyfer yn natblygiad geni dy Fab. Pryderwn y gallwn anghofio Iesu yng nghanol y prysurdeb a'r paratoi o hyn i'r wyl. Ni chafodd le yn y llety pan gafodd ei eni, ac y mae perygl y byddwn ninnau yn anghofio rhoi ei le iddo yn y paratoi a'r dathlu unwaith eto eleni. Wrth inni ymbwyllo a myfyrio ger dy fron yn awr mewn gweddi, daw geiriau'r pennill i'n cof:

‘Sut Nadolig fydd eleni yn dy gartre di?  
A fydd dathlu Gŵyl y Geni yn dy gartre di?  
Wrth y bwrdd ymysg y teulu a fydd stŵr y tŷ yn boddi  
Llais y baban yn y beudy, yn dy garte di?’

Gweddiwn am dy nerth a'th arweiniad, O! Dad, i allu gwneud ein paratoadau a'n dathliadau'n ystyrlon eleni, a maddau i ni na chafodd Iesu fawr o groeso i ddathliadau ei ben blwydd ei hun sawl blwyddyn yn y gorffennol.

Gweddiwn y byddi, drwy dy Ysbryd, yn paratoi ein calonnau i glywed a gwrando fel y bugeiliaid gynt, y newyddion da o lawenydd mawr. Dyro i ni hefyd fel hwythau galonnau i gredu bod Iesu wedi dod i'n byd yn Waredwr. Un i wneud pobl a byd newydd a gwell.

‘Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu’n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau.’

Fel y rhagwelodd y proffwyd Eseia y byddai’r Meseia’n dod â goleuni a gobaith i’r byd, cynorthwya ni i gyhoeddi bod hyn wedi ei wireddu yng ngenedigaeth, ym mywyd, gweinidogaeth, ac yn aberth ac atgyfodiad Iesu. Boed i’n ffydd a’n tystiolaeth ni gyhoeddi, i fyd sy’n dal yn llawn tywyllwch, fod goleuni, gobaith, rhyddid, llawenydd a bywyd i bechaduriaid yn Iesu. Gofynnwn am i ti baratoi ein byd a’n cymdeithas i dderbyn dy Fab, a ddaeth i fyw yn ein plith. Diolch ei fod wedi dod i rannu ein bywyd a’n hamgylchiadau. Daeth i wynebu’r un profiadau ag a gawn ni - rhai melys a chwerw, bendithion a threialon. Fel pawb ohonom ni, fe wynebodd demtasiynau ond heb ildio a phechu. Trwy’r cyfan bu’n berffaith a dibechod. A diolch i ti, O! Dad, ei fod wedi dod i roi ei fywyd yn aberth dros ein pechod ni. Daeth i’n byd er mwyn mynd i Galfaria i goncro a dileu ein pechod ac i’n cymodi â thi a’n gwneud yn blant i ti. Diolch am y tangnefedd a’r sicrwydd sydd yn ein calonnau’n awr o wybod hynny, ac am y fendith o fedru edrych ymlaen at ddathlu gwir ystyr y Nadolig.

Wrth i’r holl filiynau ddathlu’r Nadolig yn eu hanwybodaeth a’u diffyg adnabyddiaeth o Iesu, ein gweddi, O! Dad, yw iddynt weld beth yw gwir ystyr a phwrpas y Nadolig ac iddynt baratoi i’w dathlu fel Gŵyl Gristnogol, nid fel gŵyl baganaidd a seciwlar. Pan anwyd Iesu yr oedd disgwyl mawr amdano, er na fu i lawer o bobl ei adnabod am ei fod yn wahanol iawn i’w disgwyliadau.

Disgwyliadau go wahanol i’r rhai Cristnogol sydd gan y rhan fwyaf o bobl ein gwlad y dyddiau yma ar drothwy’r Nadolig. Mae llawer eleni eto’n edrych ymlaen at y Nadolig, ond heb wybod dim am Iesu na’r gwir reswm dros ei groesawu a dathlu ei ddyfodiad. Gweddiwn am nerth dy Ysbryd, O! Dad, i allu paratoi a chyhoeddi’r Nadolig hwn bod Gwardedwr wedi ei eni i’r byd - un sy’n ein caru; un fedr ein hachub; un sy’n gyfaill i’n cynorthwyo bob amser; un sy’n deilwng i ni ei groesawu y Nadolig hwn a phob Nadolig arall, gan blygu glin a chyffesu â’n tafodau ‘bod Iesu Grist yn Arglwydd er gogniant Duw Dad’. Amen.

*Dafydd Roberts*